DULL DIOGEL

# Rheoli archebion alergedd

## Gwiriwch cyn paratoi

Dilynwch y weithdrefn alergenau a gytunwyd o'r archeb i'r gweini.

### 01 Cadarnhau'r gofyniad

Cofnodwch yr union alergedd bwyd, anoddefiad neu ofyniad clefyd seliag a dywedwch wrth y sawl sy'n paratoi'r pryd.

### 02 Gwirio pob cynhwysyn

Defnyddiwch labeli, ryseitiau a chofnodion alergenau cyfredol, gan gynnwys sawsiau, garnais ac amnewidiadau.

### 03 Penderfynu a allwch arlwyo'n ddiogel

Gwiriwch risgiau croesgyswllt. Dywedwch wrth y cwsmer os na allwch ddarparu pryd addas.

### 04 Paratoi gyda rheolaethau effeithiol

Golchwch eich dwylo. Defnyddiwch ardal, offer a chyfarpar sydd wedi'u glanhau'n effeithiol. Newidiwch ddillad neu fenig sydd wedi'u halogi.

### 05 Cadw'r archeb ar wahân

Gwarchodwch y cynhwysion a'r pryd gorffenedig. Defnyddiwch ddognau ffres, nid offer a rennir na chynwysyddion wedi'u halogi.

### 06 Nodi a gweini'n gywir

Nodwch y pryd yn glir a chadarnhewch pwy yw'r cwsmer. Ailwiriwch unrhyw newid munud olaf cyn gweini.

Peidiwch byth â thynnu alergen oddi ar bryd gorffenedig a dweud ei fod yn ddiogel. Rhaid i'r glanhau gael gwared ar weddillion alergenau.
Nid yw diheintydd ar ei ben ei hun yn gwneud hyn.

**goodfoodhygiene.co.uk** Adnoddau cegin am ddim